Branwen – CA5

Tasg 1 – Gwaith llafar

Dyma bedair enghraifft o frawddegau cyntaf Branwen Ferch Llŷr gan awduron gwahanol.

Darllenwch y pedair colofn yn ofalus ac yna trafodwch â'ch partner beth yw'r gwahaniaethau a'r tebygrwydd rhyngddynt.

Edwards, J. M. (1921) *Mabinogion o Lyfr Coch Hergest*, Hughes a'i fab; Wrecsam (t. 33)	**Williams, I. (1930) *Pedeir Keinc y Mabinogi*, Gwasg Prifysgol Cymru, Caerdydd (t. 29)**	Ifans, D a Rh. (1980*) Y Mabinogion*, Gwasg Gomer, Llandysul (t. 21)	Thomas, G. (1984) *Y Mabinogi*, Gwasg Prifysgol Cymru, Caerdydd (t. 30)
Bendigaid Fran, fab Llyr, oedd frenin coronog ar yr ynys hon, a gwisgai goron ardderchog Llundain. Brynhawn-gwaith yr oedd yn Harlech yn Ardudwy, mewn llys iddo; ac yn eistedd yr oeddynt ar garreg Harlech uwchben y weilgi. A Manawyddan fab Llyr, ei frawd, oedd gydag ef, a dau frodyr o'r un fam ag ef, - Nisien ac Efnisien, - a gwŷr-da eraill, fel y gweddai o gylch brenin.	BENDIGEIDURAN uab Llyr, a oed urenhin coronawc ar yr ynys hon, ac ardyrchawc o goron Lundein. A frynhawngueith yd oed yn Hardlech yn Ardudwy, yn llysidaw. Ac yn eisted yd oedynt ar garrec Hardlech, uch pen y weilgi, a Manawydan uab Lyr y urawt y gyt ac ef, a deu uroder un uam ac ef, Nissyen, ac Efnyssyen, a guyrda y am hynny, mal y gwedei ynghylch brenin.	Yr oedd Bendigeidfran fab Llŷr yn frenin coronog ar yr ynys hon ac wedi ei arwisgo â choron Llundain. Ac un prynhawn yr oedd yn Harlech yn Ardudwy yn un o'i lysoedd. Ac yr oeddynt yn eistedd ar garreg Harlech uwch ben y weilgi a Manawydan fab Llyr ei frawd gydag ef, a dau frawd o'r un fam ag ef, Nysien ac Efnysien, a gwyrda heblaw hynny fel y gweddai o gwmpas brenin.	Roedd Bendigeidfran fab Llŷr yn frenin ar ynys Prydain ac wedi ei godi i wisgo coron Llundain. Ac un prynhawn yr oedd yn Harlech, uwchben y môr, a Manawydan fab Llŷr ei frawd, gydag ef a dau hanner-brawd arall, sef Nisien ac Efnisien, ac uchelwyr eraill heblaw'r rhain, fel sy'n weddus o gwmpas brenin.